BRO MORGANNWG

CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD

2021-2036

# ASESIAN SEILWAITH GWYRDD O SAFLEOEDD ALLEDDOL

Tachwedd 2025



PAPUR CEFNDIR - BP32A

RLDP CDLN

VALE of GLAMORGAN BRO MORGANNWG

@CBroMorgannwg CyngorBroMorgannwg LDP@valeofglamorgan.gov.uk 01446 704681 www.bromorgannwg.gov.uk

**Crynodeb Gweithredol**

i. Mae'r papur cefndir hwn yn nodi rôl strategol Seilwaith Gwyrdd (SG) wrth lunio datblygu cynaliadwy a lleoedd o ansawdd uchel fel rhan o Gynllun Datblygu Lleol newydd Bro Morgannwg 2021-2036 (CDLIN). Mae'r papur cefndir yn rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y CDLIN ac yn manylu ar sut mae SG wedi'i integreiddio ar draws polisïau gofodol, dyraniadau safleoedd a fframweithiau rheoli datblygu sy'n cyd-fynd â pholisïau cynllunio cenedlaethol ac yn cefnogi egwyddorion creu lleoedd cynaliadwy.

ii. Mae'r papur cefndir yn cefnogi cyflawni amcanion polisi cenedlaethol fel y nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 12), Cymru’r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac mae'n ymateb i'r Argyfwng Natur a ddatganwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2021 ac a gymeradwywyd gan y cyngor.

iii. Mae SG yn cyfeirio at rwydwaith cysylltiedig o nodweddion naturiol a lled-naturiol, mannau gwyrdd a systemau dŵr sy'n darparu manteision amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd lluosog. Mae'r rhain yn cynnwys gwell bioamrywiaeth, rheoli dŵr yn gynaliadwy, dal carbon a gwell iechyd a lles.

iv. Mae'r papur cefndir yn ceisio diffinio pwysigrwydd strategol SG mewn cynllunio lleol, yn asesu'r rhwydwaith SG presennol ac yn nodi cyfleoedd ar gyfer diogelu a gwella'r asedau SG a nodwyd, a bydd yn llywio penderfyniadau polisi a phenderfyniadau sy’n safle-benodol sy'n dod i'r amlwg sy'n darparu manteision amlswyddogaethol trwy atebion sy'n seiliedig ar natur sy'n symud y tu hwnt i'r ddarpariaeth mannau gwyrdd traddodiadol i integreiddio nodweddion naturiol â'r amgylchedd adeiledig.

v. Er mwyn sicrhau bod Sg yn cael ei ystyried o'r cychwyn cyntaf wrth gynllunio a dylunio datblygiad newydd, mae'r papur cefndir yn cynnwys Asesiadau SG safle-benodol sydd wedi'u paratoi ar gyfer holl ddyraniadau safleoedd allweddol arfaethedig y CDLIN.

vi. Mae'r asesiadau SG safle allweddol yn nodi nodweddion, cyfyngiadau a chyfleoedd allweddol sy'n gysylltiedig â bioamrywiaeth, tirwedd, cysylltedd a gwytnwch ecosystemau ac maent wedi'u cynnwys/crynhoi yn y papur cefndir. Bydd yr asesiadau SG safle-benodol yn ffurfio sylfaen dystiolaeth hanfodol ar gyfer uwchgynllunio, briffiau datblygu safleoedd a cheisiadau cynllunio yn y dyfodol gan sicrhau bod SG yn ystyriaeth graidd wrth gyflawni datblygiadau cynaliadwy, gwydn.

vii. Mae'r wybodaeth yn y papur cefndir yn cynnig sylfaen dystiolaeth gadarn a chyfeiriad strategol ar gyfer ymgorffori egwyddorion SG ar draws y CDLIN. Mae'n tynnu sylw at rôl hanfodol SG wrth gyflawni ystod eang o fuddion trawsbynciol ar gyfer bioamrywiaeth, gwytnwch hinsawdd, creu lleoedd a lles cymunedol ac mae'n dangos ymrwymiad Bro Morgannwg i SG o fewn fframwaith CDLIN, gan ddarparu dyfodol mwy cynaliadwy, teg a gwydn i Fro Morgannwg yn unol â dyheadau cynllunio cenedlaethol.

RLDP CDLN

**Cyngor Bro Morgannwg**
Cyfarwyddiaeth Lleoedd
Swyddfeydd Dinesig
Heol Holltwn
Y Barri CF63 4RU

LDP@bromorgannwg.gov.uk
www.bromorgannwg.gov.uk

